

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru. 'Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân ynunig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



***Craig Flannery***
*Y Prif Swyddog Tân*

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

**Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -**

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

**Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -**

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

## YNGLŶN Â'R SWYDD HON

**Cyflog:** £32,061 - £33,699

Dewch â dysgu'n fyw a helpwch i lunio dyfodol hyfforddiant digidol o fewn ein Gwasanaeth!

Rydym yn chwilio am **Dechnolegydd Dysgu ac Arloesi** creadigol a thechnolegol i ddylunio profiadau dysgu sy'n defnyddio AI, offer amlgyfrwng a meddalwedd efelychu uwch fel XVR.

Yn y swydd ymarferol hon, byddwch yn adeiladu pecynnau e-ddysgu rhyngweithiol, yn cefnogi ein platfformau dysgu digidol (pdrPro, CMS, LearnPro), ac yn cydweithio ag arbenigwyr pwnc i droi syniadau cymhleth yn hyfforddiant difyr a hygyrch. Byddwch yn helpu i sbarduno arloesedd, i gefnogi staff ar draws y Gwasanaeth, ac i aros ar flaen y gad o ran dysgu digidol a thechnolegau ymgolli.

**Y Swydd**

Bydd ein Technolegydd Dysgu ac Arloesi yn helpu i roi bywyd i hyfforddiant a datblygiad ar draws y Gwasanaeth. Byddwch yn creu profiadau dysgu modern, rhyngweithiol gan ddefnyddio meddalwedd efelychu megis XVR, AI, ac offer dylunio amlgyfrwng. Byddwch hefyd yn helpu i reoli ein llwyfannau dysgu digidol, gan sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant yn hawdd a bod systemau'n rhedeg yn esmwyth. Byddwch yn gweithio'n agos gyda hyfforddwyr ac arbenigwyr pwnc i droi senarios y byd go iawn yn gynnwys digidol diddorol sy'n cefnogi datblygiad pawb. Dyma swydd ddelfrydol os ydych chi'n mwynhau creadigrwydd, technoleg, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y ffordd y mae pobl yn dysgu

Mae hon yn swydd lawn amser, 37 awr yr wythnos gydag oriau hyblyg yn unol â chynllun oriau hyblyg y Gwasanaeth.

**Ymholiadau**

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â Nick Jones – SMB Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol ng.jones@mawwfire.gov.uk

**Gwneud cais am y swydd**

I wneud cais am y swydd, llenwch y ffurflen gais gan gyfeirio at y meini prawf a nodir yn y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person.

Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost i humanresources@mawwfire.gov.uk.

Dylech chi gynnwys copïau o'ch cymwysterau gyda'r cais.

Nodwch fod croeso i chi anfon ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Dyddiad Cau**
24 Mawrth 2026

# Disgrifiad Swydd

Prif bwrpas y swydd hon yw llunio dyfodol a hyrwyddo dysgu â thechnoleg ymgolli o fewn y Gwasanaeth, a hynny trwy ddefnyddio amrywiaeth o apiau, datrysiadau meddalwedd a thechnolegau deallusrwydd artiffisial. Bydd deilydd y swydd yn allweddol wrth greu profiadau dysgu diddorol a chynhwysol, gan gydweithio ag arbenigwyr pwnc a'r tîm Datblygu Pobl a Sefydliadol i ddylunio a chyflwyno pecynnau dysgu rhyngweithiol. Bydd deilydd y swydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o reoli ac optimeiddio systemau caledwedd a meddalwedd presennol yn barhaus, gan gynnwys pdrPro a XVR.

| | Rhestr o Gyfrifoldebau | Yn atebol i |
|---|---|---|
| 1) | Defnyddio amrywiaeth o apiau cyfrifiadurol i gofnodi a chynnal data yn gywir, gan sicrhau bod gwybodaeth ac adroddiadau rheoli yn cael eu paratoi a'u cyflwyno'n brydlon yn ôl yr angen | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 2) | Rheoli systemau cofnodi cymhwysedd e.e. CMS, pdrPro a LearnPro, neu gyfwerth.<br><br>Cynnal a diweddaru swyddfa gefn pdrPro er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r cynllunydd thematig a hyfforddiant ychwanegol. Cefnogi ychwanegu cynnwys i lwyfannau CMS.<br><br>Cynorthwyo â'r gwaith o reoli CMS a chefnogi'r Swyddog Gweithredu pdrPro i gofnodi a chynnal cofnodion personél. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 3) | Dylunio a datblygu asedau amlgyfrwng rhyngweithiol, pecynnau e-ddysgu, a deunyddiau hyfforddi eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd, gan gynnwys PowerPoint, XVR, meddalwedd Adobe, a deallusrwydd artiffisial (AI) ar gyfer cyrsiau ar-lein a dan arweiniad hyfforddwyr. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 4) | Datblygu cynnwys y cwrs gan ddefnyddio delweddau 360° neu rendrau panoramig a'u hymgorffori mewn llwybrau dysgu neu XVR. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 5) | Dylunio a datblygu pecynnau efelychu digwyddiadau hyfforddi/asesu ar gyfer Rheoli Digwyddiadau gan ddefnyddio meddalwedd efelychu XVR, neu gyfwerth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 6) | Cefnogi'r gwaith hwyluso cyrsiau ICS Lefel 1 a 2 trwy ddefnyddio meddalwedd XVR, neu gyfwerth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 7) | Datblygu a chynhyrchu deunyddiau gweledol i'w cynnwys mewn pecynnau amlgyfrwng rhyngweithiol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

| Rhestr o Gyfrifoldebau | | Yn atebol i |
|---|---|---|
| 8) | Darparu cefnogaeth wrth asesu, gweithredu a ffurfweddu datrysiadau meddalwedd newydd neu rai wedi'u diweddaru. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 9) | Cydweithio ag arbenigwyr pwnc a chynnal dealltwriaeth am y tueddiadau dysgu digidol diweddaraf, am arloesiadau mewn technoleg ymgolli, am y diweddaraf o ran creu cynnwys XVR ac am arferion gorau dysgu digidol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 10) | Cydweithio â rhanddeiliaid mewnol, gan gynnwys adrannau a rhanbarthau, i gefnogi gweinyddiaeth pdrPro ac i hwyluso mentrau datblygiad proffesiynol eraill | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 11) | Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith hawlfraint a deddfwriaeth berthnasol arall a chael caniatâd i atgynhyrchu deunydd dan hawlfraint er mwyn osgoi unrhyw dor cyfraith. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 12) | Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir yn cydymffurfio â delwedd gorfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn cael eu cynllunio yn unol â safonau deddfwriaethol ac ansawdd angenrheidiol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 13) | Gweithredu a rheoli holl offer a systemau'r swyddfa, gan gynnwys cyfrifiaduron personol, llungopïwyr, ac apiau ar gyfer cyhoeddi desg a phrosesu geiriau | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 14) | Hyblygrwydd i weithio'n hwyr gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd i gefnogi pob system ddyletswydd. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 15) | Cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol ac argymell gwelliannau i galedwedd / meddalwedd presennol trwy fynd i gyfarfodydd grwpiau defnyddwyr e.e. pdrPro, LearnPro, a XVR. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 16) | Gweithio gydag adrannau eraill ac arweinwyr prosiectau i weithredu ffrydiau gwaith newydd a phresennol o fewn y gwasanaeth | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 17) | Darparu cymorth a hyfforddiant ar systemau electronig i bersonél Amser Cyflawn/Ar-Alwad a staff cefnogol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 18) | Creu, dylunio a chynnal tudalennau mewnrwyd Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol (Gwybodaeth), yn ôl yr angen. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 19) | Cyflawni'r holl ddyletswyddau ar y safle ac mewn gwahanol leoliadau ar draws ardal y Gwasanaeth, gan addasu i amrywiaeth o amgylcheddau yn ôl yr angen. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

| Rhestr o Gyfrifoldebau | Yn atebol i |
| --- | --- |
| | |
| 20) Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n rhesymol o fewn cwmpas y swydd hon. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

**RHESTR O GYFRIFOLDEBAU** **YN ATEBOL I**

# Manylebau Personol

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Technolegydd Dysgu ac Arloesi |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Hyfforddi Earlswood SA10 6NG |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADD** | Gradd 6 |
| **ADRAN** | Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **GWIRIAD DBS** | Safonol |

Sicrhewch eich bod yn rhoi sylw i bob un o'r gofynion canlynol ar eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio i lunio rhestr fer o ymgeiswyr. Dylech gynnwys tystiolaeth sy'n ei gwneud yn amlwg bod eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd yn bodloni gofynion yr holl feysydd sy'n berthnasol i'r swydd.

| **Ffactor** | **Tystiolaeth** | **Hanfodol/ Dymunol** | **Dull Asesu** |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau | Cymhwyster neu hyfforddiant ffurfiol mewn dysgu digidol, dylunio amlgyfrwng, dylunio addysgu, TGCh, neu faes cysylltiedig | Hanfodol* | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| | Hyfforddiant â meddalwedd penodol (ee, XVR, pdrPro, multimedia/Adobe, Articulate) | Dymunol | |
| | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn dysgu digidol, offer AI, neu dechnolegau ymgolli | Hanfodol* | |
| Gwybodaeth | Gwybodaeth am dueddiadau dysgu digidol, technolegau ymgolli, ac arfer gorau mewn dylunio amlgyfrwng | Hanfodol* | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| | Dealltwriaeth o gyfraith hawlfraint sy'n ymwneud â chynnwys dysgu a'r defnydd o gyfryngau | Hanfodol* | |
| | Gwybodaeth am reoli caledwedd/meddalwedd ar gyfer dysgu technoleg, gan gynnwys uwchraddio a chyfluniad | Hanfodol* | |
| | Dealltwriaeth o safonau sefydliadol, systemau Rheoli Digwyddiadau, neu amgylcheddau dysgu gwasanaethau brys y Gwasanaeth Tân ac Achub | Dymunol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o ddylunio ac o ddatblygu asedau amlgyfrwng rhyngweithiol, pecynnau e-ddysgu, a deunyddiau hyfforddi.<br><br>Profiad o gynhyrchu deunyddiau gweledol at ddibenion dysgu a datblygu.<br><br>Profiad o greu hyfforddiant digidol neu hyfforddiant efelychu, gan gynnwys delweddau 360°, rendrau panoramig, neu becynnau efelychu XVR.<br><br>Profiad o ddarparu hyfforddiant system i staff neu ddefnyddwyr terfynol<br><br>Profiad o gynnal tudalennau mewnrwyd neu lwyfannau digidol mewnol | Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| **Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol** | Y gallu i ddylunio cynnwys dysgu digidol o ansawdd uchel gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau (PowerPoint, Adobe Suite, XVR, offer AI, ac ati)<br><br>Y gallu i ddadansoddi anghenion technoleg a chefnogi cyflwyniad systemau digidol newydd<br><br>Y gallu i gydweithio mewn tîm yn ogystal â gweithio'n annibynnol<br><br>Creadigol, arloesol, a brwdfrydig ynghylch hyrwyddo dysg trwy dechnoleg ymgolli<br><br>Gweithgar wrth sicrhau eu bod yn gwybod am dechnoleg, datrysiadau meddalwedd, a thueddiadau dysgu diweddaraf<br><br>Ymrwymiad i gynnal safonau uchel o gywirdeb, ansawdd a phroffesiynoldeb gwasanaeth<br><br>Trwydded yrru lawn gyfredol a/neu'n gallu teithio i wahanol leoliadau gwaith | Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Hanfodol*<br><br>Dymunol | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| **Cyfathrebu** | Y gallu i gyfathrebu'n glir, rhoi arweiniad, a chefnogi defnyddwyr sydd â lefelau sgiliau digidol amrywiol<br><br>Y gallu i gydweithio'n effeithiol ag arbenigwyr pwnc a rhanddeiliaid mewnol/allanol | Hanfodol*<br><br>Hanfodol* | Ffurflen gais a Chyfweliad |

Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol o leiaf ar gyfer pob swydd.

Bydd rhai rolau yn destun lefelau manylach o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.

Pan fo gofyniad ar gyfer lefel uwch o wiriad DBS wedi'i nodi, nodir y lefel a'r cyfiawnhad dros hyn isod:

LEFEL: Safonol

CYFIAWNHAD: ........................................................................................................

PARATOWYD GAN: Nick Jones

DYDDIAD ADOLYGU: 28-02-2026

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 25 Mawrth 2026

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk